CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
4 Mawrth 2020, CANOLFAN PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, E Williams, A Mummery, S Hughes, N Jones, L Roberts, D Gwyn, O Evans, M Jones (Cyngor Sir), Delyth (Medrwn Mon)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Williams (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts. Croesawyd Delyth (Medrwn Mon) i drafod "siapio lle" Mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg ers tua 4 blynedd. Y pwrpas yw mapio'r hyn sydd ar gael mewn cymunedau fel grwpiau, clybiau a chymdeithasau er mwyn rhannu a gwella asedau cymunedol. Gofynnodd Delyth a oes gan unrhyw un unrhyw wybodaeth bellach i'w throsglwyddo iddi trwy'r Clerc
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 05.02.20. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng L Roberts yn cynnig a Cyng A Mummery yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Datblygu'r maes chwarae** - Mae'r Clerc yn disgwyl penderfyniad y cais am y grant.
4.2	**BDO Archwilwyr Allanol.** Disgwyl ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru.
4.3	**Torri coed Penmynydd (Scottish Power)** Cynigiodd y Cadeirydd drafod y mater yng nghyfarfod nesaf Unllais a gofyn a yw unrhyw gynghorau eraill wedi cael yr un broblem
4.4	**Camerau cylch-cyfyng ar yr A55** - Mae'r Cynghorydd E Williams wedi derbyn cyswllt gan yr Heddlu ond yn anffodus nid ydyn nhw'n gallu gwneud unrhyw beth
4.5	**Defibrillator** - Cytunwyd i symud ymlaen gyda pris Calonnau Cymru
4.6	**Gor-yrru Star** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.7	**Bus shelter Star** - Mae'r Clerc wedi derbyn pris am ailosod un panel ac atgyweirio panel arall. Cytunwyd i ofyn am bris am ddau banel newydd
4.8	**Coed tu ôl i bungalows y pensynwyr** - Cytuniwyd i dynnu y mater o'r agenda
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN**
	Dim
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Rheolwr Archwilio Cyngor Gwynedd - cytuniwyd i dderbyn y pris (£150) am archwilio 2019/20
	Llofnod **Cadeirydd** **03.06.20**

7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	Rhoddion - Cytuniwyd i gynnig £50 yr un i First Responders yr Gwasanaeth Ambiwlans, Papur Menai, Seindorf, Beaumaris a Ambiwlans Awyr Cymru
7.2	Aelodaeth Unllais Cymru £78.00
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Dim
9	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **03.06.20**